# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# BWRDD CABINET YR AMGYLCHEDD, ADFYWIO A GWASANAETHAU STRYDLUN

## DYDD GWENER, 22 MAWRTH 2024

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr: W.F.Griffiths a/ac S.Jones (Cadeirydd)

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, S.Brennan, D.Griffiths, M.Roberts, C.Morris, J.Stevens, D.Rees, Ms.J.Smith, T.McConvey, T.Rees a/ac C.Plowman

**Gwahoddedigion craffu:**

Cynghorwyr: S.Pursey a/ac T.Bowen

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2024 fel cofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

7. **SIARTER TEITHIO IACH**

**Penderfynwyd:**

Nodi'r adroddiad.

8. **MESURAU PERFFORMIAD 2023/2024 - CHWARTER 3**

**Penderfynwyd:**

Nodi'r adroddiad.

9. **RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, fod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn cael ei newid fel a ganlyn:

Cwmnïau i'w hychwanegu at y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| *Bramwood Timber Products Ltd* (B046) | 10 |

Cwmnïau i'w cynnwys ar y Rhestr ar gyfer categorïau ychwanegol:

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| *F&T Refrigeration Ltd* (F006) | 39,59 |

Cwmnïau i'w tynnu oddi ar y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| *Arjo Med Ab Ltd* (A026) | 51 |

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes, a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol. Yn ogystal â hyn, at ddiben darparu Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer gwahoddiad i dendro o fewn y categori perthnasol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau a ddaeth i ben am 9am, ddydd Mawrth 26 Mawrth 2024.

10. **GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG 'GWAHARDD AROS, LLWYTHO NEU DDADLWYTHO AR UNRHYW ADEG' ARFAETHEDIG AR MEADOW ROAD AR GYFER Y DATBLYGIAD TAI NEWYDD, CLOS CASTAN, CASTELL-NEDD**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, rhoddir cymeradwyaeth i hysbysebu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig ar Meadow Road, Castell-nedd ar gyfer y Datblygiad Tai newydd (fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau rhoddir y cynnig ar waith ar y safle fel y'i hysbysebwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Bydd y gorchymyn rheoleiddio traffig arfaethedig yn atal parcio diwahaniaeth ac yn rheoleiddio problemau symudedd er diogelwch ar y ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 26 Mawrth 2024.

11. **GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG 'GWAHARDD AROS, LLWYTHO NEU DDADLWYTHO AR UNRHYW ADEG' ARFAETHEDIG, COEDCAE, PONTARDAWE**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, cymeradwyo hysbysebu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig yng Nghoedcae, Pontardawe (fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad a

ddosbarthwyd), ac os na dderbynnir gwrthwynebiadau, caiff y cynnig ei roi ar waith ar y safle fel yr hysbysebwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Bydd y gorchymyn rheoleiddio traffig arfaethedig yn atal parcio diwahaniaeth ac yn rheoleiddio problemau symudedd er diogelwch ar y ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 26 Mawrth 2024.

12. **GORCHYMYN CLOS OLYMPAIDD, THE PRINCESS MARGARET WAY, CHANNEL VIEW, PORTH Y GWYDDEL A GOLWG Y MADJOE, SANDFIELDS, PORT TALBOT (DIDDYMIAD) (GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO AR UNRHYW ADEG) (GWAHARDD AROS AR UNRHYW ADEG) A (GWAHARDD TROI I'R DDE) 2024**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Dylid diystyru'r gwrthwynebiadau i Orchymyn (Clos Olympaidd, The Princess Margaret Way, Channel View, Porth y Gwyddel a Golwg y Madjoe, Sandfields, Port Talbot) (Diddymiad) (Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg) (Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg) a (Gwahardd Troi i'r Dde) 2024 (fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd), a bydd y cynllun yn cael ei roi ar waith fel yr hysbysebwyd.
- Bod y gwrthwynebwyr yn cael eu hysbysu o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Bydd y gorchmynion rheoleiddio traffig yn atal parcio diwahaniaeth o amgylch y ffyrdd mynediad i Ddatblygiad Awel Afan er diogelwch priffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 26 Mawrth 2024.

13. **RHAGLEN WAITH PRIFFYRDD 2024/25**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig, cymeradwyir y rhaglen waith ar gyfer 2024/2025 (fel y nodir yn Atodiadau A&C yr adroddiad a ddosbarthwyd).

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Er mwyn cynnal asedau y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt fel Awdurdod Priffyrdd a mynd i'r afael â phryderon y gymuned mewn perthynas â'r un peth.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 26 Mawrth 2024.

14. **YNNI GOLEUADAU STRYD - YMATEB I'R YMGYNGHORIAD**

**Penderfyniad:**

Yn dilyn cynnig Pwyllgor Craffu Gwasanaethau'r Amgylchedd, Adfywio a Strydlun, a gynhaliwyd cyn y cyfarfod hwn, roedd yr Aelodau'n gefnogol o'r diwygiad i'r argymhellion canlynol, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Felly, cafodd yr argymhellion eu cymeradwyo fel a ganlyn:

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig:

- Nodi'r adborth o'r ymgynghoriad
- Cymeradwyo pylu llusernau LED 25%
- Cymeradwyo'r astudiaeth beilot o oleuadau rhan amser gyda'r nos, er mwyn cael dealltwriaeth well o effeithiau strategaethau arbed o'r fath a thrwy hynny alluogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn y dyfodol, os ystyrir ei fod yn briodol. Cyn cynnal cynllun peilot o'r fath, cyflwynir adroddiad pellach i'r Aelodau sy'n rhoi manylion lleoliad daearyddol yr astudiaeth beilot arfaethedig, hyd yr astudiaeth beilot, a'r amseroedd pan fydd y goleuadau'n cael eu diffodd/cynnau, a chaiff y cynlluniau eu cymeradwyo gan Aelodau cyn y cynhelir unrhyw gynllun peilot. Yna caiff canlyniadau cynllun peilot eu hatgyfeirio at yr Aelodau i lywio unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol, os ystyrir bod hyn yn briodol. Cynhelir ymgynghoriad fel rhan o'r astudiaeth beilot a bydd yn cynnwys

asesiad o'r effeithiau ar fenywod a merched ifanc o ran trais, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw yn cael eu hadrodd i'r aelodau ar ôl cwblhau'r cynllun peilot a'r ymgynghoriad.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi rhai arbedion i wrthbwyso'r cynnydd mawr mewn costau ynni, ac i roi rhagor o wybodaeth i'r Aelodau am effaith goleuadau rhan amser gyda'r nos.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 26 Mawrth 2024.

15. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

16. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**Penderfyniad:**

Gwaherddir y cyhoedd o'r cyfarfod wrth i’r eitem fusnes ganlynol gael ei hystyried ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 yn amodol ar gymhwyso Prawf Budd y Cyhoedd (lle bo'n briodol).

17. **CAIS AR GYFER CAMERA ADNABOD RHIFAU CERBYDAU YN AWTOMATIG (ANPR) (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 18)**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig
:

- Cymeradwyo gosod camerâu ANPR ar oleuadau stryd mewn egwyddor, yn amodol ar gytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth derbyniol gyda Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio i ymgynghori â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, i

gwblhau, cymeradwyo a dechrau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth cysylltiedig neu gytundeb ysgrifenedig arall gyda Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru; a chytuno ar leoliadau ANPR lle maent wedi'u gosod ar isadeiledd priffyrdd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I benderfynu ar ymateb i gais gan Heddlu De Cymru.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 26 Mawrth 2024.

18. **CYNNIG ARFAETHEDIG I GODI CYFAMODAU CYFYNGU A GWERTHU ARDAL FACH O DIR YN HEN WESTY THE FOUR WINDS, PRINCESS MARGARET WAY, PORT TALBOT (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig, cytunir ar ryddhau'r ddau gyfamod a gwaredu tir ar yr amodau a thelerau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Bydd gwaredu'r tir a rhyddhau'r cyfamodau yn rhoi derbyniad cyfalaf i'r Cyngor

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 26 Mawrth 2024.

19. **RHYDDHAD ARFAETHEDIG O GYFAMOD CYFYNGU AR DIR GER 5 PARK ROW, CWMAFAN, PORT TALBOT (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig cam cyntaf, cymeradwyo amodau a thelerau rhyddhau'r cyfamod yn ôl y telerau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Bydd rhyddhau'r cyfamodau'n rhoi derbyniad cyfalaf i'r Cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 26 Mawrth 2024.

20. **UNITY MINE - CAIS I AWDURDODI RHYDDHAU BOND (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Sgrinio Integredig
, rhoddir awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio i wneud y canlynol:

- Defnyddio'r bond sydd ar waith gyda Banc Barclays yn ffurfiol, mewn perthynas â Unity Mine, sydd ar gael i gyfrannu tuag at gost cwblhau'r gwaith o adfer y safle yn unol â'r manylion cymeradwy a gyflwynwyd o dan yr amodau cynllunio
- Atal Rheol 11 y Rheolau Gweithdrefnau Contractau a dechrau unrhyw gytundebau ariannol gyda Blue Rock sy'n angenrheidiol i hwyluso taliad ymhellach a godwyd oherwydd y gwaith i adfer y safle yn unol â'r manylion cymeradwy a gyflwynwyd o dan yr amodau cynllunio

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I gyfrannu tuag at gost cwblhau'r gwaith o adfer y safle yn unol â'r manylion cymeradwy a gyflwynwyd o dan yr amodau cynllunio.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 26 Mawrth 2024.

**CADEIRYDD**